



Lliain sychu Capeli!

gweler tudalen 10-11

Gair gan y Gweinidog

Yn y flwyddyn 2005, cefais gyfle i dreulio ychydig amser yn Seland Newydd a hynny drwy Gynllun Sabothol yr enwad. Prif bwyslais yr ymweliad oedd edrych ar batrymau gwahanol o Weinidogaeth a hynny yn wyneb prinder gweinidogion a lleihad mewn aelodaeth. Cafwyd cyfle i ymweld â nifer o ofalaethau ar Ynys y Gogledd, gofalaethau sydd bellach yn gorfod ymdopi heb bresenoldeb gweinidogion ordeiniedig. Bu'r ymweliad yn un arbennig iawn a hynny am ddau brif reswm, sef y bobl a'r tirwedd. Wyneb dieithr oeddwn i ac eto cafwyd croeso ar un aelwyd ar ôl y llall. Pobl yn agor eu cartrefi, am wythnos, am noson, am brynhawn, gan ddarparu lletygarwch a chyfeillgarwch. Diau fod hyn yn dweud llawer am y ffydd Gristnogol ac yn arbennig felly yr undod hwnnw sy'n bodoli rhwng pobl ffydd.

Gwnaeth y tirwedd argraff arnaf hefyd. Golygfeydd naturiol, yn llynnoedd a choedwigoedd, y cyfan yn gyfrwng i greu ymdeimlad o ryfeddod gan gofio bod rhai ardaloedd yn parhau i fod yr un fath ers canrifoedd, heb unrhyw ymyrraeth ddynol, yn hardd ac yn naturiol. Fe fu'r ymweliad yn fendith mewn nifer o ffyrdd a bellach mae i ynsoedd Seland Newydd le cynnes yn fy nghalon a chyfeillion newydd yn dal i gadw cysylltiad. Oherwydd hynny, yr wyf wedi datgan lawer gwaith ar yr aelwyd y byddwn yn hoffi mynd yno i fyw a diau fod hynny yn rhywbeth y mae pob un ohonom wedi'i ddatgan ar ryw adegau arbennig mewn bywyd, sef y dymuniad i fyw yn rhywle gwahanol. Mae yna lefydd yr ydym yn hoff iawn o ymweld â nhw ac yn dilyn yr ymweliadau hynny, yn teimlo yr hoffem aros ynddynt. Ond ar yr un pryd rydym yn sylweddoli fod yna wahaniaeth mawr rhwng ymweliad ac ymsefydlu yn rhywle. Un peth yw aros am wythnos, peth arall yw byw am oes. Ac onid gwir dweud mai profiad braf bob amser yw troi am adref.

Bu'r ymweliad yn gyfrwng bendith a hynny mewn cyfnod pan oedd angen atgyfnerthiad personol, ond fel mae'r hen gân yn ei ddweud "does unlle yn debyg i gartref". Dychwelyd i blith teulu ac i gynefin cyfarwydd a gweld a gwerthfawrogi'r cyfan o'r newydd.

Mae hi'n fis Mawrth unwaith yn rhagor, mis ein Nawddsant, mis a diwrnod pan fo cyfle i ddatgan ein cariad at ein gwlad, i ymhyfrydu yn yr hyn oll sy'n ein gwneud yn genedl – yn iaith a diwylliant a hanes a thirwedd. Yn yr hyn sy'n bod heddiw a'r cyfleon hynny sydd yn cynnig eu hunain i ni fel cenedl. Y mae'n gyfle hefyd i ddathlu'n ffydd; i gydnabod cyfraniad allweddol y grefydd Gristnogol i'n bywyd fel gwlad, ac mae'n gyfle i orfoleddu yn y ddealltwriaeth fod y Ffydd yn dal yn fyw a phobl ffydd yn dal i gyhoeddi Efengyl bywyd.

Arglwydd, rho o'th nerth i ninnau
dystio heddiw dros y gwir,
fel na choller breintiau Seion
a goludoedd gras o'n tir.
Na ddiffodded fflam yr allor
yn ein gwlad o oes i oes;
boed y golau'n dal i dywys
ei phreswylwyr at y groes.

Mwynhewch y dathlu!



Er cof

Janet Ann Davies – ‘Haia!’; gair bychan, bach, cyffredin ond bellach gair ag iddo gyd-destun newydd. Fel yna y byddai Ann yn eich cyfarch a’r cyfarchiad hwnnw yn llawn cynhesrwydd a chyfeillgarwch, ac felly bob tro y bydd rhywun yn clywed y gair, am Ann y byddwn yn meddwl.

Wrth ysgrifennu’r ychydig eiriau yma o goffâd ’rwy’n ymwybodol iawn mai swil fyddai Ann o unrhyw awgrym o glod. Nid rhywbeth i ymorchestu ynddo oedd personoliaeth a chyfraniad ond yn hytrach pethau naturiol bywyd a’r gwahoddiad i’w hadlewyrchu mewn gair ac mewn gweithred, a’r cyfan yng ngyd-destun perthynas. O ddyddiau plentyndod ym Mlaengarw i ddyddiau coleg a gwaith, Bangor ac Aberystwyth, dynas pobl oedd Ann; yn wraig, mam a mam-gu, athrawes a ffrind, blaenores, cymdoges a pherson ffydd. Yn trin pawb yr un fath, a’r rhinwedd yna yn ysbrydoliaeth ac yn fendith. Fel yna yr oedd hi’n gweld ei hargyhoeddiadau – nid yn rhywbeth i’w gyfyngu i ddogma ac oedfa ond yn hytrach rywbeth i’w fyw a’i ddathlu, a chanlyniad hynny oedd iddi anwylo ei hunan i gymaint. Er yn berson pendant heb unrhyw weniath yn perthyn iddi, mi roedd yna gynhesrwydd deniadol yn rhan o’i chymeriad a ninnau o ganlyniad yn closio ati ac yn falch o’i chyfeillgarwch.

Bu’n fawr ei chyfraniad i’r byd addysg ac roedd ei chariad mawr at lenyddiaeth a barddoniaeth a cherddoriaeth yn ysbrydoliaeth i un genhedlaeth ar ôl y llall. Naturiol felly oedd iddi fod yng nghanol gweledigaeth a gwaith y Morlan gyda’r awydd i weld yr Efengyl yn pontio cymunedau a bywydau. Fe fydd parhad y Ganolfan yn dystiolaeth deilwng i gyfraniad ac argyhoeddiad pobl fel Ann. Yn dawel bach fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl yr wynebodd ei chyfnod byr o salwch ac yn dawel bach y daeth y bywyd hwnnw i ben. Yn ysbryd yr ‘Haia!’ fydd yn aros, diolch am gael ei hadnabod ac am fendithion ei chymdeithas a’i chyfraniad.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Dafydd, Helen, Maia ac Anna yn eu profedigaeth o golli mam a mam-gu.

Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Morfa ar 27 Rhagfyr, gyda'r Parchedigion Eifion Roberts, Enid Morgan, Pryderi Llwyd Jones ynghyd â Mr Rocet Arwel Jones yn gwasanaethu. Yn dilyn, bu gwasanaeth i'r teulu yn unig yn Amlogfa Arberth.

Beryl Davies – Un o Gosen, Crymych oedd Beryl ac fe'i ganed ar 27 Medi, 1925 yn ferch i Jim a Daisy Davies. A hithau ond yn bump oed symudodd y teulu i fferm 'Garreg Wen', Bwlchgyroes ac fel llawer i blentyn arall, roedd yn rhaid cerdded i'r ysgol – dwy filltir; tocyn i ginio a the neu goco a'r unig beth oedd yr awdurdodau yn ei ddarparu, heblaw yr addysg, oedd y dŵr poeth!

Y rhain oedd blynyddoedd y mowldio a'r siapio, dylanwadau aelwyd a chymuned, ysgol a chapel. Yn 1936 fe symudodd y teulu i fferm Glantegfan ar gyrion Aberteifi ac felly mynychodd Beryl Ysgol Ramadeg Aberteifi. Byr fu'r arhosiad hwnnw – gwta ddwy flynedd gan i'w thad anafu ei ben-glin gyda chryman a hithau o ganlyniad yn gorfod dychwelyd gartref i helpu ar y fferm. Yna yn 1941 a 1942 fe aeth i ddilyn cwrs llaethyddiaeth yn y coleg yn Aberystwyth ac oddi yno i weithio yn hufenfa Hendy-gwyn ar Daf fel un oedd â'r cyfrifoldeb o brofi'r llaeth. Tua'r un adeg ymddangosodd plismon ifanc yn Aberteifi, PC 40. Roedd yn destun sgwrs ac edmygedd sawl merch ifanc ond Beryl a enillodd y dydd! Wedi eu huno mewn priodas dechreuodd y daith o Aberteifi i Bontrhydfendigaid, Brynhoffnant, Rhydaman a Llanymddyfri gan orffen yn ardal Aberystwyth.

Roedd y rhain yn flynyddoedd llawn cefnogaeth a Beryl yn gweithredu fel ysgrifenyddes answyddogol i Tom. Wedi marwolaeth ei mam yn 1967 bu gofal Beryl yn fawr dros ei

thad ond nid yn unig hynny, fe gafodd swydd fel cogyddes; yn Neuadd Carpenter i ddechrau ond wedyn yn y Coleg Diwinyddol a mawr oedd gwerthfarwogiad y myfyrwyr – yn arbennig am y pwdin reis chwedlonol! Gwraig, cogyddes ond hefyd mam gariadus, gefnogol i Anne ac i Elgan a bu Beryl yng nghanol eu bywydau a bywyd eu teuluoedd hyd y diwedd. Yn wraig ffydd a chapel, gydag oedfa a Chaniadaeth y Cysegr yn ganolog i'w bywyd, roedd yna rywbeth cadarn am Beryl – yn graig, yn di-ffws, ac yn garedig a'i bywiogrwydd yn amlwg mewn cerddediad a phersonoliaeth. Tristwch i bawb ohonom oedd ei marwolaeth sydyn ond diolchwn am gael ei hadnabod a phrofi cynhesrwydd ei phersonoliaeth a'i chwmni.

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Anne ac Elgan a'u teuluoedd gan weddio y bydd Duw yn cysegru eu hatgofion a'u harwain i ddiolchgarwch am un oedd yn angor i'w bywydau fel teulu.

Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa ar 16 Rhagfyr ac yn dilyn ym mynwent y dref gyda'r Parchedigion Eifion Roberts, John Tudno Williams ac Elwyn Pryse yn gwasanaethu.

Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd 2018

'Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd!'



Paratowyd gan Chwiorydd Cristnogol Swrinam
Gwasanaeth ddydd Gwener, 2 Mawrth, am
2 o'r gloch
Lleoliad: **Festri Capel y Morfa**

Croeso cynnes i bawb!

Noson Gwis Blynyddol Morlan 2018

Nos Fercher, 7 Chwefror, cynhaliwyd y cwis blynyddol, unwaith eto dan ofal Phil Davies, y cwis-feistr ffraeth, gyda Carol yn cadw'r sgôr.

Daeth chwe thîm i gystadlu am Darian Her Morlan – rhai yn dimau sefydlog, eraill yn newydd sbon. Eifion, Iwan Bryn, Shelagh a Gwynfor oedd yn wynebu'r her yn enw'r Morfa. Cafwyd wyth rownd o grafu pennau dros gwestiynau amrywiol, a heriol, ond trechwyd pawb gan un cwestiwn: 'Beth yw ein pwddin cenedlaethol?' Yr ateb yn ôl Phil yw *roulade*, sy'n cael lle amlwg yng nghytgan ein hanthem genedlaethol!

Ar derfyn noson ddifyr a hwyliog yr enillwyr oedd y Garn (Llinos, Cynog, Gruffydd Aled a Wyn) gyda 60 marc, a'r pum tîm arall yn agos iawn at ei gilydd – Bethel, Tal-y-bont 52, Carmel Llanilar 51, y Santes Fair a Horeb Penrhyn-coch 50, a'r Morfa 49. Daliwch ati Capel y Morfa – mae gennych 11 mis i baratoi at y nesaf, ac i ddangos nad ffliwc oedd ennill y Darian yn 2016!



Bore Sul y Pasg

1 Ebrill am 10.00 o'r gloch

Gwasanaeth Teuluol yng Nghapel y Morfa

Paned a helpa wyau ar ôl y gwasanaeth



Open Doors

60 years of serving persecuted Christians

6.00 nos Sul, 25 Mawrth 2018

Oedfa arbennig yn y Morfa i drafod gwaith
OPEN DOORS

Mudiad sy'n gwasanaethu a chefnogi
Cristnogion dan ormes ledled y byd

gyda'r Dr Matthew Rees, Rhydychen

1.00-2.00 dydd Llun, 26 Mawrth 2018

Cyfle i glywed mwy am waith **OPEN DOORS**

yng Nghanolfan Morlan

gyda'r Dr Matthew Rees, Rhydychen

Paned ar gael – dewch â'ch brechdanau!

Saith Llais Karen Owen yn Morlan



Pan glywes Karen Owen yn trafod ei cherdd a chlywed rhai o'r darlleniadau ar Radio Cymru ychydig o fisoedd yn ôl roeddwn i eisie clywed mwy. Felly dileit oedd gweld bod Karen yn dod â'i Saith Llais i'r Morlan. Es gan ddisgwyl, am ryw reswm, y byddai'r saith yno – Maureen Rhys, Nia Roberts, Cefyn

Roberts, Dewi Pws, Alun Ffred, Gwilym Owen a Beti George. Er fy mod i'n gwybod pa mor anymarferol ac annhebygol fyddai hynny, siom, wrth gyrraedd, oedd gweld bod Karen yno ar ei phen ei hun: a oedd Pws a Beti George a'r gang yn cwato yn y stafell gefn, tybed? Na, yn y cyfrifiadur yr oedden nhw, yn aros i Karen bwyso'r botwm.

Pryd mae llais mewn technoleg yn gyflwyniad a phryd mae cyflwyniad yn berfformiad? Pryd mae geiriau'n gerdd a phryd mae cerdd yn farddoniaeth? Pryd mae symudiad yn rhythm a phryd mae rhythm yn gân? Pryd mae geiriau'n ystrydeb a phryd mae ystrydeb yn ddihareb a phryd mae dihareb yn wireb? Pryd mae gair yn wirionedd? Wwww, dyma gerdd a chyflwyniad pryfoclyd ar fwy nag un lefel – ond yn gyfeillgar gofleidiol bryfoclyd.

Ac eithrio'r caniad cyntaf a ddarllenwyd yn fyw gan Karen i gyfeiliant cerddoriaeth Jarman, clywyd recordiadau o'r saith llais yn darllen y gerdd wrth i'r geiriau ymddangos drwy dafluniadau. Gan fod y cyflwyniad yn dibynnu gymaint ar ddefnyddio technoleg, roedd ansawdd y sŵn a gosodiad y tafluniadau yn erbyn wal yn hytrach na sgrîn (gyda rhai o'r geiriau uchaf yn diflannu) yn siomedig gan eu bod yn amharu ar effaith y gerdd ac ar ein mwynhad ohoni. Os gwneud yn dechnolegol, gwneud yn dechnolegol dda, ondife?

Wrth wrando a gwyllo'r caniadau cyntaf sylweddolles nad oeddwn yn gwerthfawrogi gymaint ag a wnes wrth glywed y gerdd ar y radio. Ond wrth gau fy llygaid a chanolbwyntio ar sŵn y geiriau a'r gerddoriaeth fe ymlacies ac fe ymgolles.

Roedd y cyfuniad o'r geiriau, a'u strwythur pryfoclyd, a darnau o gerddoriaeth newydd, a gyfansoddwyd yn bwrpasol i'w gosod ar y farddoniaeth, yn wych.

Gosod cerddoriaeth ar farddoniaeth – ynte fel arall mae hi i fod (dychmygu lleisiau ambell un arall yn cwestiynu ydw i fan hyn!)? Ai cerdd dant oedd hyn (dychmygu lleisiau ambell un arall yn gobeithio ydw i fan hyn)? Gwn fod Karen wedi lambastio rhai o arferion cerdd dant ac yn sicr 'doedd dim byd yn y cyflwyniad oedd yn debyg i'r rheolau a geir yn *Allwedd y Tannau*. Ond roedd cerddoriaeth barddoniaeth yn plethu i gydysgogi fy meddwl a chyd-gynhyrfu y peth hudol is-synhwyrol yna'n ddwfn y tu fewn i mi.

Mae cerdd Karen yn bwysig. Mae'r doethinebu syml a diaddurn, y gwrthbwynt rhwng y dwyster a'r cyffredin a'r cyffyrddiadau doniol-ddrygionus fel petaent yn agor clawr ar lyfr diarhebion newydd. Ac mae angen y llyfr hwnnw.

Jeremy Turner (Diolch i Marian Delyth am y llun. Gol.)

Lliain sychu llestri arbennig . . .



Efallai fod nifer ohonoch yn gyfarwydd â gwaith yr arlunydd Lizzie Spikes, sydd newydd agor siop yn y Porth Bach yn Aberystwyth. Merch o Geredigion yw Lizzie, sydd bellach yn byw yn Nhyn-y-Graig, Ystradmeurig, ac mae diwylliant a thirwedd Cymru a'r iaith Gymraeg yn wastad wedi bod yn bwysig iddi. Ac wrth iddi deithio ar hyd a lled Cymru, mae wedi sylwi ar yr holl gapeli sydd o gwmpas, pob un â'i nodweddion unigryw ei hun.

Yn 2017, penderfynodd yr hoffai greu darn o waith fyddai'n cynnwys ei hoff gapeli – ond cafodd gryn dipyn o ben tost yn dewis y 48 gorau. Teimlai fod y rhan fwyaf ohonom yn cymryd yr adeiladau pensaernïol hardd yma yn rhy ganiataol o lawer, ac aeth ati i greu lliain sychu llestri gyda lluniau'r capeli wedi eu hargraffu arno. Gan mai'r gegin yw calon cymaint o

gartrefi Cymraeg, gobaith Lizzie yw y bydd y capeli ar y lliain llestri hefyd yn cael eu gweld a'u gwerthfawrogi'n ddyddiol.

Ac mae'n braf iawn dweud y gellir gweld, ynghanol y 48 o hoff gapeli Lizzie, lun o Gapel y Morfa, Aberystwyth. Bydd rhaid i chi alw yn y siop i weld pa gapeli yw'r 47 arall!



Cinio Bara a Chaws



Pryd? Dydd Llun, 5 Mawrth
Amser? Rhwng 12.15–1.30 pm
Lle? Canolfan St Paul

Croeso cynnes i bawb – dewch i gefnogi!

Newyddion

Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion at:

- ✦ Sera Llewelyn a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty yn dilyn llawdriniaeth. Hefyd ein haelodau a dderbyniodd driniaeth ddydd yn yr ysbyty yn ddiweddar.
- ✦ Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd yn derbyn gofal ar eu haelwydydd neu mewn cartrefi gofal.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i:

- ✦ Dyfan Rhys a Rachel ar enedigaeth eu merch, Olivia Fflur, chwaer i Harrison ac wyres i Vivian a Sue Rees-Butterworth.
- ✦ Amelia Davies ar enedigaeth ei hwyres, Robyn, merch i Michael a Judi yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlwn â:

- ✦ theulu y ddiweddar Mrs Olwen James, Stryd y Cae Glas, a fu farw yng nghartref ei nith yn Ne Cymru.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i:

- ✦ blant a ieuencid yr Ysgol Sul am eu hymdrech a'u llwyddiant yn Eisteddfodau Gŵyl Ddewi ysgolion y cylch
- ✦ Anest Eurig ar ei llwyddiant yn ennill Cadair a Choron Eisteddfod Penweddig ac i Ioan Mabbutt ar ennill dau gwpan (Cwpan y Cerddor a'r Cwpan am y perfformiad gorau) yn Eisteddfod yr Ysgol Gymraeg.
- ✦ Betsan Downes am ennill tlws yr unawd offerynnol a'r tlws am ysgrifennu barddoniaeth Saesneg. Daeth Betsan hefyd yn ail am y Goron a'r Gadair yn yr Ysgol Gymraeg.
- ✦ Lleucu Siencyn am ennill y tlws am y marciau uchaf yn yr Eisteddfod. Elan Mabbutt a ddaeth yn ail a'i chwaer Alis Mabbutt a ddaeth yn drydydd am y marciau uchaf. Y beirniad cerdd oedd Bethan Bryn.
- ✦ Gronw Downes ar ennill yr ail wobwr mewn cystadleuaeth i offerynwyr pres yng Ngŵyl Offerynnau Pres a gynhaliwyd yn neuadd Ysgol Penglais yn ddiweddar ac i bawb arall a fu'n aelod o grŵp neu fand.

Diolch i:

- ✦ Mr Wynford Evans am ei rodd hael i'r Ysgol Sul yn dilyn ei ben blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hwyl y Pasg

Yr Ysgol Sul

Dyddiad i'w gofio:

Bore Sul, 18 Mawrth, am 10.00



Hwyl y Pasg – (Llan Llanast) – gweithgareddau amrywiol ac mae croeso i unrhyw un o'r gynulleidfa ymuno yn yr hwyl.

Newyddion Ebeneser



Cafwyd gwasanaethau bendithiol yn ystod y mis a chyfle i gofio am ein haelodau sydd yn methu ymuno â ni yn yr addoliad. Roedd yn braf croesawu Mrs Brenda Griffiths yn ôl i'n plith.

Anfonwn ein cofion at Miss Llinos Hughes sydd wedi derbyn triniaeth ar ei llygaid ac at Mrs Megan Morris sydd wedi syrthio a chael anaf i'w chefn. Cofiw'n hefyd am ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal.

Cynhelir Dydd Gweddï Chwiorydd y Byd ddydd Gwener, 2 Mawrth am 2 o'r gloch yn Festri'r Morfa. Lluniwyd y gwasanaeth eleni gan chwiorydd Swrinam, De America. Croeso cynnes i bawb.

Edrychwn ymlaen at Gyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion ar 14 Ebrill am 2.30 yng Nghapel y Morfa pryd y bydd y Parchedig Casi Jones yn ein harwain.

Bydd Megan Evans yn barod i dderbyn y blychau cenhadol, neu unrhyw gyfraniad ariannol at y Genhadaeth, cyn diwedd Mawrth os gwelwch yn dda, fel rhan o waith Ebeneser at waith cenhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yma yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor. Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad parod a'ch cefnogaeth ac i Megan Evans am ymgymryd â'r gwaith eto eleni.

Bydd y Sasiwn Genhadol eleni yng Nghapel Bwlch-gwynt Tregaron ddydd Iau, 17 Mai.

Cymdeithas y Morfa

Nos Lun, 22 Ionawr – Ar gyfer y cyfarfod cyntaf ar ddechrau'r flwyddyn cynhaliwyd cwis o dan ofal Eirian a Menna Evans. Roedd ôl paratoi manwl ar y cwis gan fod y cwestiynau'n seiliedig ar amrywiaeth o destunau gan ddefnyddio cyfryngau sain a llun. Cafwyd hwyl ar y trafod a'r dyfalu ymhlith aelodau'r pedwar tîm. Ar ddiwedd y noson, tîm Gwynfor Jones oedd ar y brig a'r gweddill yn dilyn yn agos.

Diolchwyd i Eirian a Menna am noson hwyliog a chartrefol gan y Cadeirydd, Hefin Jones, a chafwyd cyfle i fwynhau cymdeithas â'n gilydd dros baned wedi ei baratoi gan Hywel a Dilys Lloyd.

Nos Lun, 5 Chwefror – Hanes Pererindod i Israel gan Alun Jones, Hywel Lloyd a Dafydd Morgan Evans

Cawsom gyfle i ddilyn rhaglen gynhwysfawr o luniau ar y sgrîn wedi eu paratoi gan Alun Jones a chlywed hanes y daith gan Hywel Lloyd a Dafydd Morgan Evans. Darllenwyd adrannau perthnasol o'r Testament Newydd gan Hywel i gyd-fynd â rhai o'r lluniau.

Roedd eu pererindod yn dechrau yn Nasareth a Chapernaum yng Ngalilea gan symud ymlaen i Fôr Galilea a Jeriwsalem. Yno dilynwyd taith yr Arglwydd Iesu o Ardd Gethsemane ar hyd Ffordd y Groes i Eglwys y Bedd Sanctaidd. Clywyd hefyd hanes yr ymweliadau â man geni'r Iesu ym Methlehem a Masada a Qumran yn ardal y Môr Marw. Diolchwyd i'r tri am noson ddiddorol gan y Cadeirydd, Hefin Jones. Yna cafwyd cyfle i fwynhau'r lluniaeth a baratowyd gan Margaret Stephens a Blodwen Williams.

Cofiwch am y cyfarfod nesaf:

Nos Lun, 12 Mawrth am 7 o'r gloch: Byd y Fet – noson yng nghwmni'r milfeddyg Phil Thomas

Ein Cenedl a'i Phobl



Gweddiwn, Arglwydd, dros ein cenedl a'i phobl:

dros ein cymdogaethau, ein trefi a'n pentrefi;
dros ein cartrefi a'n bywyd teuluol;
dros ein hysgolion, ein colegau a'n pobl ifanc;
dros sefydliadau cyhoeddus, gwleidyddion a chynghorwyr;
dros ddiwydiannau a'u gweithwyr;
dros gefn gwlad a phawb sy'n trin y tir;
dros y cyfryngau, cynhyrchwyr a darlledwyr;
dros fudiadau diwylliannol, llenorion a beirdd;
dros ysbytai, meddygon a chleifion;
dros bawb sy'n gweinyddu'r gyfraith,
dros y tlawd, y di-gartref a'r di-waith;
dros ein heglwysi a'u cynulleidfaoedd,
a thros ledaeniad dy deyrnas yn ein plith:
'Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena d'adain dros ein gwlad'.

Amen

Elfed ap Nefydd Roberts allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

Gwasanaethau'r Pasg

Nos Iau Cablyd, 29 Mawrth am 7 o'r gloch

Gwasanaeth Unedig Dwyieithog, Canolfan St Paul

Bore Gwener y Groglith, 30 Mawrth

Seion, Stryd y Popty am 10 o'r gloch

Oedfa Unedig Eglwysi Cymraeg y dref.

Gorymdaith yn dilyn y gwasanaeth gan gychwyn wrth Gloc y Dref.



Darlith Flynyddol Morlan-Pantyyfedwen 2018
7.00, nos Lun, 23 Ebrill

**'Can a market economy have a moral basis?
Thatcher, Zacchaeus and me'**

Arglwydd Griffiths o Fforest Fach

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
Croeso cynnes i bawb!

**Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd
Ceredigion**

Dydd Sadwrn

14 Ebrill am 2.30 o'r gloch yng Nghapel y Morfa

Anerchir gan y Parchedig Casi Jones

Bydd Mary Jones Morris yn barod i dderbyn y blychau Cenhadol neu unrhyw gyfraniad ariannol at y genhadaeth **cyn diwedd Mawrth** fel rhan o gyfraniad Capel y Morfa at waith cenhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yma yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor. Gan ddiolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth barod fel arfer.

SWYDDOGAETHAU MAWRTH 2018

Blaenor y Mis Rhys Jones

Porthorion Arwel Jones, Jean Lloyd Davies
L. John Roberts, Beti Roberts

Blodau'r Cysegr – Y Morfa

- 4 Eleri Davies
- 11 Margaret Stephens
- 18 Wyn a Megan Hughes
- 25 Beti a John Roberts

Blodau Ebeneser

- 4 Hilda Williams
- 11 Megan Evans
- 18 Sylvia Lewis
- 25 Susan Hughes

Cynorthwywyr Llestri Cymun

- 4 (Nos) Mary Jones, Beryl Roberts, Anne Edwards

Cynorthwywyr Ariannol

- 4 Hefina Davies-Wright a Wynford Evans
- 11 Ellen Llwyd-Evans ac Elvey MacDonald
- 18 William a Mair Griffiths
- 25 Beti Roberts a Blodwen Williams

Tregerddan

- 25 Dan ofal Gwenan Creunant

DYDDIADUR MAWRTH 2018

GWASANAETHAU'R SUL

10.00 a 5.00* yn y Morfa; 2.15pm yn Ebeneser

***PWYSIG:** Bydd oedfa'r nos yn newid i 6.00 o'r gloch ar 25 Mawrth *

- 4 Bore: Oedfa'r Parêd gyda Delwyn Siôn yn Morlan
Nos: Bugail (Cymun)
- 11 Meirion Morris
- 18 Bugail (Llan Llanast yn y bore)
- 25 Matthew Rees
(Oedfa arbennig yn y nos i drafod gwaith Matthew Rees
gydag Open Doors)

YSGOLION SUL

Plant ac Ieuenctid: bore am 10.00

DOSBARTH BEIBLAIDD – nos Iau am 7.15pm yn y Morlan –
dan ofal Dr Bryn Roberts

Y GYMDEITHAS

Nos Lun, 12 Mawrth am 7 o'r gloch: Byd y Fet – noson yng
nghwmni'r milfeddyg Phil Thomas

CYLCH GWEDDI A CHOFFI – bore Mawrth am 10.30


HWYL HWYR – brynhawn Llun am 3.45 – 5.00 yn Morlan

FFYDD A PHANED – brynhawn Gwener am 2.00 yn y Morfa

CINIO BARA A CHAWS

5 Mawrth – Canolfan St Paul (12.15-1.30)

Golygyddion y mis hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai
Lloyd Williams. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn EBRILL Perthyn
at Hywel Lloyd (hywel.lloyd6@gmail.com) erbyn **dydd**
Gwener, 16 MAWRTH, yn ddi-ffael os gwelwch yn dda.



Oedfa Gŵyl Ddewi Gyda Delwyn Siôn

10.00 o'r gloch, fore Sul, 4 Mawrth
Yng Nghanolfan Morlan

Trefnir gan Morlan ac eglwysi Cymraeg Aberystwyth fel rhan o weithgareddau penwythnos Parêd Gŵyl Ddewi

Croeso cynnes i bawb

Yn Groes i'r Graen

GARTH HEWITT
Côr Gobaith



Lle? Canolfan Morlan

Pryd? NOS SADWRN, 10 MAWRTH am 7.00pm

Tocynnau: £8 / Dan 11: £6

Mae Garth Hewitt yn un o sêr y byd canu roc Cristnogol ers sawl degawd ac wedi cyfansoddi a chanu caneuon dros heddwch a chyfiawnder dros y cyfnod hwn. Fe ddaw â'i hanesion a'i ganeuon i Aberystwyth mewn cyngerdd cofiadwy a bydd Côr Gobaith yn rhan o'r noson.